**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn (sydd yn gymwys o ran Cymru) yn rhagnodi amser a dull cyhoeddi gorchmynion drafft y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu'u gwneud ar gyfer sefydlu corfforaethau addysg bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 16(1) a (3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007

*Wedi'u gwneud* *2007*

*Yn dod i rym* *23 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 51 ac 3 ac 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992[**1**] ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru [**2**]):

Enwi, cychwyn, dehongli **a** chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mawrth 2007.

(3) Yn y rheoliadau hyn mae cyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Cyhoeddi etc. gorchmynion y cyfeirir atynt yn adran 51(3)(a)**

**2.**—(1) Mae'r materion a ganlyn wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 51(3) mewn perthynas â gorchmynion y cyfeirir atynt yn adran 51(3)(a) (gorchmynion o dan adran 16(1)) -

(a) rhaid i'r gorchymyn drafft gael ei gyhoeddi (yn unol ag is-baragraff (b) a pharagraff (3) is-baragraffau (a) i (c)) dim hwyrach na dau

---

**1** 1992 p.13
**2** *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672)

fis cyn y dyddiad a bennir ynddo ar gyfer sefydlu'r corff corfforaethol;

(b) rhaid i grynodeb o'r gorchymyn drafft gael ei gyhoeddi -

(i) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal a wasanaethir, neu a fydd yn cael ei gwasanaethu, gan y sefydliad y mae'r gorchymyn drafft yn ymwneud ag ef,

(ii) drwy ei osod mewn o leiaf un man amlwg yn yr ardal honno, a

(iii) yn achos gorchymyn drafft sy'n ymwneud â sefydliad sydd eisoes yn bod, drwy ei osod mewn lle amlwg wrth brif fynedfa'r sefydliad hwnnw neu gerllaw iddi.

(2) Rhaid i'r crynodeb ddatgan y gellir cael copi o'r Gorchymyn drafft yn rhad ac am ddim gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru anfon copi o'r gorchymyn drafft-

(a) at awdurdod addysg lleol yr ardal y lleolir y sefydliad o'i mewn neu lle y bwriedir ei leoli; a

(b) corff llywodraethu unrhyw sefydliad yn y sector addysg bellach, neu gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol sy'n darparu addysg addas at ofynion pobl dros oed ysgol gorfodol nad ydynt dros bedair ar bymtheg mlwydd oed, ac yn y ddau achos sydd yn yr ardal a wasanaethir neu a fydd yn cael ei gwasanaethu gan y sefydliad y mae'r gorchymyn drafft yn ymwneud ag ef; ac

(c) unrhyw berson arall yr ymddengys i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod ganddo fuddiant; ac

(ch) unrhyw berson sy'n gofyn amdano.

**Cyhoeddi etc. gorchmynion y cyfeirir atynt yn adran 51(3)(b)**

**3.**—(1) Mae'r materion ym mharagraff (2) wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 51(3) mewn perthynas â gorchmynion y cyfeirir atynt yn adran 51(3)(b) (gorchmynion a wneir o dan adran 16(3)).

(2) Rhaid i'r gorchymyn drafft gael ei gyhoeddi dim hwyrach na dau fis cyn y dyddiad a bennir ynddo ar gyfer sefydlu'r corff corfforaethol drwy anfon copi at-

(a) corff llywodraethu'r sefydliad y cyfeirir ato ynddo;

(b) yr awdurdod addysg lleol, os oes un, sy'n cynnal y sefydliad ac, yn achos ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sydd o natur grefyddol at ddibenion Rhan II o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, awdurdod priodol unrhyw enwad crefyddol dan sylw; ac

(c) unrhyw berson yr ymddengys i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod ganddo fuddiant.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Dyddiad
*Dafydd Elis-Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**1**) 1998 p38